| | <p>(1B) But subsection (1A) does not apply if the convicted person is incapable of voting in a local government election by virtue of section 173 (persons convicted of corrupt or illegal practice).</p> <p>(1C) In calculating the term of a sentence of a convicted person for the purpose of subsection (1A), terms that are consecutive or concurrent to any extent are to be treated as a single term if the sentences were imposed on the person—</p> <p>(a) on the same occasion, or</p> <p>(b) on different occasions but the person was not released (other than on temporary release) at any time during the period beginning with the first occasion and ending with the last.”</p> <p>(c) Yn is-adran (2), yn lle “this purpose” rhodder “the purposes of this section”.’.</p> | <p>euogfarnwyd rhag cofrestru fel etholwr am gyfnod penodol o 3 neu 5 mlynedd.</p> <p>Mae'r is-adran 1C newydd, a fewnosodwyd yn adran 3 o Ddeddf 1983 yn darparu, wrth gyfrifo dedfryd person a euogfarnwyd, fod dedfrydau sy'n olynol neu'n gydamserol yn cael eu trin fel un tymor, p'un a gânt eu gosod ar yr un achlysur (is-adran (1C(a)) neu ar wahanol achlysuron, yn ystod cyfnod dedfryd sydd eisoes wedi'i gosod (is-adran (1C)(c)). Os caiff person ei ddedfrydu ar yr un achlysur i ddau gyfnod o 2 flynedd, a fydd yn digwydd yn olynol, bydd wedi torri'r trothwy 4 blynedd ac ni fydd yn cael ei etholfreinio. Bydd person a ddedfrydwyd i 3 blynedd yn y ddalfa ac sydd wrthi'n treulio'r ddedfryd honno ac sydd, o fewn 1 flwyddyn i'r ddedfryd honno, yn cael ei euogfarnu o drosedd arall a'i ddedfrydu i gyfnod arall o 2 flynedd, sydd i ddigwydd yn olynol, yn colli ei hawl i bleidleisio ar yr adeg y caiff yr ail ddedfryd ei gosod.</p> <p>Diwygir is-adran 3(2) o Ddeddf 1983 gan yr adran 2(3)(c) newydd yn y Bil hwn, felly mae'n cyfeirio at "at ddibenion yr adran hon" yn hytrach nag "at y diben hwn", i gydnabod, yn rhinwedd y newidiadau a wneir gan y gwelliant hwn, fod adran 3 o Ddeddf 1983 yn ymdrin â mwy nag un diben.</p> |
| 3 | <p>Tudalen 2, ar ôl llinell 25, mewnosoder adran newydd—</p> <p>‘3 Diwygiadau canlyniadol i barhau'r etholfraint bresennol yn etholiadau Senedd Cymru</p> | <p>Mae Gwelliant 3 yn mewnosod adran newydd yn y Bil hwn sy'n diwygio adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd).</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|---|---|
| | <p>Yn adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (hawlogaeth i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd)—</p> <p>(a) yn is-adran (1)(a), yn lle “or fall within the extended franchise for Senedd elections as described in this section” rhodder “, except those entitled to vote in such an election by virtue of section 3(1A) of the Representation of the People Act 1983 (c.2)”;</p> <p>(b) hepgorer is-adran 1A);</p> <p>(c) hepgorer is-adran (1B).’.</p> | <p>Bydd adran newydd 3(1A) o Ddeddf 1983, sydd i'w mewnosod gan Welliant 2 uchod, yn galluogi rhai carcharorion a phobl ifanc sydd yn y ddalfa i gael eu cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.</p> <p>Effaith yr adran 3(1)(a) newydd yn y Bil hwn, a fewnosodir gan y gwelliant hwn, yw diwygio adran 12(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel bod y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio mewn etholiad i'r Senedd yn rhai sydd wedi'u cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru , ac eithrio'r rhai a gaiff eu hetholfreinio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol gan adran 3(1A) newydd Deddf 1983 (h.y. unrhyw garcharorion neu bobl ifanc sydd yn y ddalfa).</p> <p>Mae'r adrannau newydd 3(1)(b) ac (c) yn y Bil hwn, a fewnosodir gan y gwelliant hwn, yn hepgor is-adrannau (1A) a (1B) o adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 2020. Nid yw adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 2020 bellach yn angenrheidiol; roeddent yn darparu y dylai estyn yr etholfraint llywodraeth leol i bobl 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol fod yn gymwys i etholiadau'r Senedd yn unig (adran 10) ac (adran 11) yn y drefn honno.</p> |
| 4 | <p>Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 36, mewnosoder—</p> <p>‘(3) Er gwaethaf y ffaith bod y diwygiadau a wneir gan y darpariaethau a grybwyllir yn is-adran (4) yn dod i rym yn rhinwedd adran 171(3), nid ydynt ond yn cael effaith at ddibenion etholiad ar gyfer aelodaeth o</p> | <p>Mae Gwelliant 4 yn mewnosod is-adrannau (3) a (4) newydd yn adran 3 o'r Bil hwn, fel y'i cyflwynwyd, fel bod y darpariaethau a bennir yn yr is-adran (4) newydd, er eu bod yn dod i rym ddeufis ar ôl i'r Bil hwn dderbyn y Cydsyniad Brenhinol (yn rhinwedd adran 171(3) o'r Bil hwn, fel y'i cyflwynwyd), yn cael effaith dim ond at ddibenion etholiad i'r Senedd a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.</p> <p>Y darpariaethau a restrir yn is-adran (4)(a) a (b) yw'r rhai sy'n gwneud newidiadau canlyniadol (drwy'r gwelliannau a restrir uchod) i adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau nad yw etholfeinio rhai</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|---|--|
| | <p>Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.</p> <p>(4) Y darpariaethau yw—</p> <p>(a) adran 2, i'r graddau y mae ganddi effeithiau canlyniadol ar adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);</p> <p>(b) adran [a fewnosodir gan welliant 3];</p> <p>(c) paragraff 8(3)(b) o Atodlen 2.'</p> | <p>carcharorion a phobl ifanc sydd yn y ddalfa yn gymwys i etholiadau'r Senedd.</p> |
| 5 | <p>Adran 171, tudalen 108, llinell 18, ar ôl '2', mewnosoder 'a [adran a fewnosodir gan welliant 3]'</p> | <p>Mae Gwelliant 5 yn mewnosod cyfeiriad at yr adran newydd a fewnosodwyd yn y Bil hwn gan Welliant 3 uchod yn adran 171(3)(b) o'r Bil hwn (Dod i rym).</p> <p>Bydd yr adran newydd yn dod i rym ddeufis ar ôl i'r Bil hwn dderbyn y Cydsyniad Brenhinol, ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 3 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd), fel y'i diwygiwyd gan Welliant 4 uchod.</p> <p>Yn unol â hynny, dim ond at ddibenion etholiad i Senedd Cymru, a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny, y bydd yr adran newydd (sy'n ymwneud â diwygiadau canlyniadol i gadw'r etholfraint bresennol ar gyfer etholiadau'r Senedd) yn effeithiol.</p> |
| 6 | <p>Atodlen 2, tudalen 119, ar ôl llinell 11, mewnosoder—</p> <p>'(2) Yn adran 7A (preswylfa: personau sydd wedi eu remandio yn y ddalfa etc.)—</p> | <p>Mae Gwelliant 6 yn mewnosod darpariaeth newydd ar ôl paragraff (1) yn Atodlen 2 i'r Bil hwn i wneud amryw o ddiwygiadau (fel a ganlyn) i ran I o Ddeddf 1983 (Hawl i gofrestru).</p> <p>Mae'r paragraff 2(2) newydd yn Atodlen 2 i'r Bil hwn yn mewnosod is-adran (1A) newydd yn adran 7A o Ddeddf 1983 (Preswylfa: personau</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|---|--|
| | <p>(a) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—</p> <p>“(1A) But this section does not apply to the registration of local government electors in Wales.”;</p> <p>(b) yn is-adran (6), ar ôl “In this section” mewnosoder “and section 7AA”.</p> <p>(3) Ar ôl is-adran 7A mewnosoder—</p> <p>“7AA Residence of persons in custody for registration of local government electors in Wales</p> <p>(1) This section applies to the registration of local government electors in Wales.</p> <p>(2) Subsection (3) applies to—</p> <p>(a) a person to whom section 3(1A) applies (convicted person detained and sentenced to a term of less than 4 years), and</p> <p>(b) a person who is detained at any place pursuant to a relevant order or direction and is so detained otherwise than after—</p> <p>(i) being convicted of any offence, or</p> | <p>sydd wedi eu remandio yn y ddalfa), gan gael yr effaith o ddatgymhwysu adran 7A o Ddeddf 1983 at ddibenion cofrestru carcharorion sydd ar remánd fel etholwyr llywodraeth leol.</p> <p>Mae'r diwygiad i is-adran (6) o adran 7A o Ddeddf 1983 yn darparu y bydd carcharorion sydd ar remánd yn cael eu cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol ar yr un sail â charcharorion eraill a gaiff eu hetholfreinio gan y ddeddfwriaeth hon, y bydd yr adran 7AA newydd a fewnosodwyd yn Neddf 1983 gan y Gwelliant hwn yn gymwys iddynt.</p> <p>Mae is-adran (3) o'r Gwelliant hwn yn mewnosod adran 7AA newydd yn Neddf 1983; mae'r adran newydd yn gwneud darpariaeth ynghylch preswylfa personau sydd yn y ddalfa (oedolion a phobl ifanc) at ddibenion eu cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol.</p> <p>Mae is-adran (3) o'r adran 7AA newydd yn darparu y bernir nad oes bwlch ym mhreswylfa person sydd yn y ddalfa (at ddibenion ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol) (i) os yw'n bwriadu ailddechrau preswyllo mewn annedd lle'r oedd yn byw cyn mynd i'r ddalfa (ar yr amod nad yw wedi'i atal rhag gwneud hynny gan orchymyn llys); neu (ii) y byddai'n preswyllo mewn annedd ar sail barhaol pe na bai yn y ddalfa.</p> <p>Mae is-adran (4) o'r adran 7AA newydd yn darparu y bernir nad oes bwlch ym mhreswylfa person sydd yn y ddalfa os oes datganiad o gysylltiad lleol mewn grym ar gyfer y person hwnnw, yn rhinwedd y ffaith ei fod yn ddigartref (sy'n golygu ei fod yn berson a gwmpesir gan adran 7B(2)(c) o Ddeddf 1983).</p> <p>Mae'r is-baragraff (4) newydd, a fewnosodir yn Atodlen 2 i'r Bil hwn gan y Gwelliant hwn, yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 7B (preswylfa</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|---|---|
| | <p>(ii) a finding in criminal proceedings that the person did the act or made the omission charged.</p> <p>(3) In determining whether the person is resident in a dwelling on the relevant date for the purpose of section 4(3)(a), the person's residence is not to be taken to have been interrupted by reason of the person's detention if—</p> <p>(a) the person—</p> <p>(i) intends to resume actual residence there when released from detention (other than on temporary release), and</p> <p>(ii) will not be prevented from doing so by an order of any court, or</p> <p>(b) the dwelling serves as a permanent place of residence (whether for the person alone or with other persons) and the person would be in actual residence there but for the convicted person's detention.</p> <p>(4) In determining whether the person is resident in a place on the relevant date for the purposes of section 4(3)(a), the person's residence is not to be taken to have been interrupted by the person's detention if-</p> | <p>dybiannol: datganiadau o gysylltiad lleol) o Ddeddf 1983, fel y'i diwygiwyd gan adran 19 o Ddeddf 2020.</p> <p>Mae'r diwygiadau yn is-baragraff (4)(a) yn diwygio is-adran (2A) (fel y'i mewnosodwyd gan adran 19 o Ddeddf 2020) i baratoi'r ffordd ar gyfer mewnosod trefniadau newydd mewn perthynas â rhai datganiadau o gysylltiad lleol gan is-baragraffau (4)(b) i (4)(g).</p> <p>Mae is-baragraff (4)(a)(i) o'r Gwelliant hwn yn hepgor is-adran (2A)(a) o adran 7B o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 19 o Ddeddf 2020); roedd is-adran (2A)(a) yn darparu bod yn rhaid i berson sydd â hawl i wneud datganiad o gysylltiad lleol yn rhinwedd bod yn berson a alluogwyd i wneud datganiad o'r fath yn rhinwedd is-adran (2B) o adran 7B (fel y'i mewnosodwyd gan adran 19 o Ddeddf 2020) fod o dan 18 oed. Diwygir is-adran (2B) gan y Gwelliant hwn (gweler isod) ac nid yw'r trothwy bellach yn briodol ar gyfer pob categori a gynhwysir yn yr is-adran (2B) newydd.</p> <p>Mae is-baragraff (4)(a)(ii) o'r Gwelliant hwn yn diwygio is-adran (2) o adran 7B o Ddeddf 1983 i hepgor y cyfeiriad at adran 7A o'r Ddeddf 1983, sydd wedi ei datgymhwyso at ddibenion cofrestru fel etholwr llywodraeth leol gan yr is-baragraff (2) newydd yn Atodlen 2 i'r Bil hwn, fel y'i mewnosodwyd gan y Gwelliant hwn (gweler uchod).</p> <p>Mae is-baragraff (4)(a)(iii) o'r Gwelliant hwn yn diwygio is-adran (2A)(c) o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodir gan adran 19 o Ddeddf 2020) i fewnosod cyfeiriad at yr is-adran (2E) newydd sydd i'w mewnosod yn adran 7B o Ddeddf 1983 gan y Gwelliant hwn (gweler isod).</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|--|--|
| | <p>(a) a declaration of local connection is in force in respect of the person, and</p> <p>(b) the declaration was made by virtue of the person falling within section 7B(2)(c).”</p> <p>(4) Yn adran 7B (preswylfa dybiannol: datganiadau o gysylltiad lleol)—</p> <p>(a) yn is-adran (2A)—</p> <p>(i) hepgorer paragraff (a);</p> <p>(ii) ym mharagraff (b), yn lle “paragraphs (a) to (c)” rhodder “paragraphs (a) or (c)”;</p> <p>(iii) ym mharagraff (c), ar ôl “(2B)” mewnosoder “or (2E)”;</p> <p>(b) yn lle is-adran (2B) rhodder— “(2B) The requirements are that the person—</p> <p>(a) is under 18 years of age and is, or has been, a child who is looked after by a local authority, or</p> <p>(b) is being kept in secure accommodation.”;</p> <p>(c) hepgorer is-adran (2C);</p> | <p>Mae is-baragraff (4)(b) o'r Gwelliant hwn yn amnewid is-adran (2B) newydd yn adran 7B o Ddeddf 1983, fel y caiff y personau a bennir yn yr is-adran (2B) newydd gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol drwy wneud datganiad o gysylltiad lleol; sef (i) person sydd o dan 18 oed ac sy'n blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol; neu (ii) yn berson sy'n cael ei gadw mewn llety diogel. Mae'r gofyniad bod rhaid i berson mewn llety diogel fod o dan 18 oed yn cael ei ddileu drwy hynny. Diffinnir llety diogel yn is-adran (2D)(b) o adran 7B o Ddeddf 1983 fel y'i mewnosodwyd gan adran 19 o Ddeddf 2020.</p> <p>Mae is-baragraff 4(c) o'r Gwelliant hwn yn hepgor is-adran (2C) o adran 7B o Ddeddf 1983 ac felly nid oes unrhyw ofyniad bellach bod Gweinidogion Cymru yn pennu'n gyntaf, mewn rheoliadau, amgylchiadau llety diogel lle cedwir personau.</p> <p>Mae is-baragraff (4)(d) o'r Gwelliant hwn yn mewnosod is-adran (2E) newydd yn adran 7B o Ddeddf 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020). Mae'r is-adran (2E) newydd yn galluogi person sydd yn y ddalfa i wneud datganiad o gysylltiad lleol os yw'n berson a gwmpesir gan yr adran 7AA newydd o Ddeddf 1983 (gweler uchod) ac y'i rhwystrir rhag cofrestru fel etholwr llywodraeth leol gan adran 5(6) o Ddeddf 1983 neu nad yw eisoes wedi'i galluogi i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yn rhinwedd y darpariaethau yn yr adran 7AA newydd o Ddeddf 1983.</p> <p>Mae is-baragraff (4)(e) o'r Gwelliant hwn yn mewnosod is-adran (d) newydd yn is-adran (4) o adran 7B o Ddeddf 1983, felly mae'r "cyfeiriad gofynnol" (sef y cyfeiriad sy'n golygu bod gan y person gysylltiad â'r ardal lle mae'n ceisio cael eu cofrestru fel etholwr llywodraeth leol) i berson sy'n dod o fewn yr is-adran (2E) newydd fel y'i pennir yn is-adran (4)(d) (i) i (iii) newydd fel y'i mewnosodir gan y gwelliant hwn. Rhaid i berson o'r fath</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|---|---|
| | <p>(d) ar ôl is-adran (2D) mewnosoder—</p> <p>“(2E) In relation to the registration of local government electors in Wales, this section also applies to a person who, on the date on which the person makes a declaration under subsection (1), is a person—</p> <p>(a) to whom section 7AA applies (persons in custody), and</p> <p>(b) who would not be entitled to be registered as resident at the place in which the person is in legal custody by virtue of section 5(6) or any other place by virtue of section 7AA.”;</p> <p>(e) yn is-adran (4), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—</p> <p>“(d) in the case of a person falling within subsection (2E)—</p> <p>(i) the address in Wales where the person would be residing but for the person’s detention,</p> <p>(ii) if the person cannot give an address under subparagraph (i), the address in Wales at</p> | <p>ddarparu'r cyfeiriad y byddai'n preswyllo ynddo pe na bai'n cael ei gadw; Os nad yw'n gallu rhoi cyfeiriad o'r fath, mae'n rhaid iddo roi'r cyfeiriad lle'r oedd yn preswyllo yn union cyn iddo gael ei gadw (ond ni ddylai hyn fod yn sefydliad cosbi) neu, os yw'n ddigartref, y cyfeiriad lle y treuliodd ran sylweddol o'i amser. Os nad yw ond yn gallu rhoi cyfeiriad sy'n un lle y byddai'n cael ei atal rhag preswyllo ynddo drwy orchymyn llys, rhaid iddo roi cyfeiriad yn ardal y prif gyngor lle mae'r cyfeiriad wedi'i leoli.</p> <p>Mae is-baragraff (4)(f) o'r Gwelliant hwn yn diwygio is-adran (7B)(a) o adran 7B o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodir gan adran 19 o Ddeddf 2020) felly mae'r diffiniad o "datganiad perthnasol" yn cynnwys un a wnaed o dan is-adran (2E) newydd Deddf 1983 fel y'i mewnosodwyd gan y gwelliant hwn ac felly yn cael effaith dim ond ar gyfer cofrestriad y person fel etholwr llywodraeth leol.</p> <p>Mae is-baragraff (4)(g) o'r gwelliant hwn yn mewnosod is-adran (7D) newydd yn adran 7B o Ddeddf 1983 (fel y'i diwygiwyd gan adran 19 o Ddeddf 2020) felly ni chaiff person sydd yn y ddalfa, wrth wneud datganiad o gysylltiad lleol, roi cyfeiriad naill ai (i) ar gyfer derbyn gohebiaeth gan y swyddog cofrestru etholiadol neu'r swyddog canlyniadau, neu (ii) fel yr annedd sy'n cyfateb i gysylltiad y person â'r ardal, os yw'n gyfeiriad y byddai'n cael ei atal rhag preswyllo ynddo oherwydd gorchymyn llys.</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|---|---|
| | <p>which the person was resident immediately before the person's detention (but not the address of a penal institution), or if the person was homeless at that time, the address of, or which is nearest to, a place in Wales where the person commonly spent a substantial part of the person's time (whether during the day or night), or</p> <p>(iii) if the person can only give an address under paragraph (i) or (ii) at which the person would be prevented from residing because of an order of any court ("the prohibited address"), an address used by a council of a county or county borough in Wales in whose area the prohibited address is located.";</p> <p>(f) yn is-adran (7B)(a), ar ôl "(2A)" mewnosoder "or (2E)";</p> <p>(g) ar ôl is-adran (7C), mewnosoder— “(7D) In a relevant declaration, a person may not give an address under subsection (3)(a)(i) or subsection (4)(d)(i) or (ii) at which the person would be prevented from residing because of an order of a court.”.</p> | |
| 7 | Atodlen 2, tudalen 123, ar ôl llinell 7, mewnosoder— | Mae Gwelliant 7 yn diwygio paragraff 8(3)(b) o Atodlen 2 i'r Bil hwn i fewnosod is-baragraff (6ZA) newydd ym mharagraff 2 o Atodlen 4 i |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|--|--|
| | <p>'(b) ym mharagraff 2 (y modd o bleidleisio), ar ôl is-baragraff (6) mewnosoder—</p> <p>“(6ZA) In relation to a local government election in Wales, nothing in the preceding provisions of this paragraph applies to a person to whom section 3(1A) of the 1983 Act (convicted persons detained and sentenced to a term of less than 4 years capable of voting in local government elections) applies; and such a person may only vote by post or by proxy (where the person is entitled as an elector to vote by post or, as the case may be, by proxy at the election).”;</p> <p>(c) ym mharagraff 3(3) (pleidlais absennol mewn etholiadau am gyfnod penodol neu amhenodol)—</p> <p>(i) ym mharagraff (c) hepgorer yr “or” ar ddiwedd y paragraff;</p> <p>(ii) ar ddiwedd paragraff (d) mewnosoder “, or”;</p> <p>(iii) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—</p> | <p>Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (Deddf 2000). Effaith y paragraff newydd (6ZA) yw y caiff person sydd yn y ddalfa, a freinir ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn rhinwedd adran 3(1A) o Ddeddf 1983 a fewnosodir gan welliant 2 uchod, bleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol drwy'r post neu drwy ddirprwy yn unig.</p> <p>Mae Gwelliant 7 hefyd yn diwygio paragraff 8(3)(b) o Atodlen 2 i'r Bil hwn i fewnosod paragraff (e) newydd ym mharagraff 3(3) o Atodlen 4 i Ddeddf 2000, felly ystyrir bod person sydd yn y ddalfa ac sydd wedi'i etholfreinio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn rhinwedd adran 3(1A) o Ddeddf 1983 sydd i'w mewnosod gan Welliant 2 uchod, yn gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy (mewn etholiadau llywodraeth leol yn unig).</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|--|--|
| | <p>“(e) in the case of local government elections in Wales, if the person is a person to whom section 3(1A) of the 1983 Act (convicted persons detained and sentenced to a term of less than 4 years capable of voting in local government elections) applies,”.</p> | |
| 8 | <p>Atodlen 2, tudalen 123, ar ôl llinell 14, mewnosoder—</p> <p>‘(5B) A person is not capable of voting as proxy at a local government election in Wales if on the date of the election section 3(1A) of the 1983 Act (convicted persons detained and sentenced to a term of less than 4 years capable of voting in local government elections) applies to the person.’.</p> | <p>Mae Gwelliant 8 yn diwygio paragraff 8(3)(b) o Atodlen 2 i'r Bil hwn i fewnosod is-baragraff (5B) newydd ym mharagraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2000 (Dirprwyon mewn etholiadau), felly nid oes gan berson sydd yn y ddalfa, sydd wedi'i etholfreinio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn rhinwedd adran 3(1A) o Ddeddf 1983 (sydd i'w mewnosod gan welliant 2 uchod), yr hawl i fod yn ddirprwy i bleidleisiwr arall mewn etholiad llywodraeth leol.</p> |
| 9 | <p>Atodlen 2, tudalen 124, ar ôl llinell 19, mewnosoder—</p> <p>‘(2) Hepgorer adrannau 10 ac 11.’.</p> | <p>Mae Gwelliant 9 yn diwygio Paragraff 16 o Atodlen 2 i'r Bil hwn, i fewnosod is-baragraff newydd 2. Y diben yw diwygio Deddf 2020 i hepgor adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 2020. Roedd adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 2020 yn darparu ar gyfer etholfreinio pobl 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys, ac er mwyn i'r estyniadau hyn fod yn gymwys ar gyfer etholiadau'r Senedd yn unig. Mae adran 2 o'r Bil hwn yn darparu y caiff pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol bleidleisio mewn</p> |

| Rhif | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | DIBEN AC EFFAITH |
|------|-------------------------|---|
| | | etholiadau llywodraeth leol hefyd, felly nid oes angen adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 2020 bellach. |
| | | |

Pleidleisio gan garcharorion yn etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru

Bwriad y polisi

Bydd y gwelliannau arfaethedig yn etholfreinio carcharorion a phobl ifanc¹ yn y ddalfa o Gymru sy'n gwasanaethu dedfryd o garchar o lai na phedair blynedd ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi'r hawl i ryw 1,900 o oedolion sy'n garcharorion a rhyw 20 o bobl ifanc yn y ddalfa bleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf (ar draws yr holl brif gynghorau a chynghorau cymuned) a gynhelir ym mis Mai 2022.

Byddai carcharorion cymwys yn cofrestru i bleidleisio ar sail cyfeiriad yng Nghymru y mae ganddynt gysylltiad ag ef; gallai hwn fod eu cartref teuluol, eu preswylfa flaenorol neu, os ydynt yn ddigartref, gyfeiriad y gallant ddangos cysylltiad ag ef. Ni fyddai carcharor yn gallu cofrestru ar sail cartref teuluol neu breswylfa arall y'i gwaherddir rhag dychwelyd iddi ar ôl cael ei ryddhau yn rhinwedd gorchymyn llys ("cyfeiriad a waherddir"); byddai carcharorion o'r fath yn gallu rhoi cyfeiriad y sir neu'r fwrdeistref sirol yng Nghymru y lleolir y cyfeiriad a waherddir ynddi. Ni fyddai carcharorion yn gallu cofrestru i bleidleisio ar sail cyfeiriad y carchar.

Byddai carcharorion yn gallu pleidleisio trwy'r post neu drwy ddirprwy yn unig (ni fyddai unrhyw orsafoedd pleidleisio mewn carchardai. Ni fyddai carcharorion o Loegr neu mewn man arall mewn carchardai yng Nghymru'n gallu cofrestru i bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru gan ddefnyddio cyfeiriad y carchar ei hun. Ni fyddent yn gallu cofrestru i bleidleisio ond os gallent ddarparu cyfeiriad arall yng Nghymru y gallent dangos cysylltiad ag ef.

Bydd y Bil yn etholfreinio pobl ifanc 16 a 17 oed i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru; caiff pobl ifanc yn y ddalfa o Gymru eu hetholfreinio ar yr un telerau â charcharorion sy'n oedolion. Bydd y Bil hefyd yn darparu i bobl ifanc 14 a 15 oed gael eu cofrestru fel "pobl ifanc sy'n cofrestru ymlaen llaw" yn barod iddynt ddod yn bleidleiswyr yn 16 oed. Bydd unrhyw bobl ifanc 14 a 15 oed sy'n gwasanaethu dedfryd o lai na phedair blynedd hefyd yn cael eu cofrestru fel "pobl ifanc sy'n cofrestru ymlaen llaw".

¹Mae cyfeiriadau at "carcharorion" yn cynnwys "pobl ifanc yn y ddalfa" oni nodir yn wahanol.

Bydd y Bil yn etholfreinio dinasyddion tramor sy'n preswyllo yng Nghymru yn gyfreithlon; câi unrhyw garcharorion sy'n bodloni'r amodau hyn eu hetholfreinio.

Os bydd carcharorion yn penderfynu arfer eu hawl i bleidleisio, bydd arnynt angen mynediad i ymgeiswyr, y cyfryngau yng Nghymru a deunydd ysgrifenedig am yr etholiad er mwyn nodi'r materion a gwneud dewisiadau doeth. Bydd ymgeiswyr hefyd yn dymuno cael mynediad hefyd i'r categori newydd o bleidleiswyr. Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio dod i gytundeb â Llywodraeth y DU i alluogi carcharorion o Gymru ar draws yr ystad carchardai i gael mynediad i wybodaeth berthnasol a chadw unrhyw rwystrau posibl i gofrestru a bwrw eu pleidlais i'r lleiaf posibl.

Cefndir y gwelliant

Er bod y rhannau o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi bod yn cael eu datblygu ers chwe blynedd ni chafodd yr elfennau mewn perthynas ag Etholiadau eu datganoli'n llawn i Weinidogion Cymru tan Ebrill 2018, a hynny trwy Ddeddf Cymru 2017. Yn barod ar gyfer hyn, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol yn haf 2017. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn ar etholfreinio carcharorion yn gadarnhaol gyda 50% o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig o'i gymharu â 48% yn ei wrthwynebu gyda 2% ddim yn mynegi barn. Crybwyllodd yr ymatebwyr hawliau dynol a dinasyddiaeth carcharorion, ochr yn ochr â manteision etholfreinio o safbwynt adsefydlu.

Adeg cyflwyno Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn Ionawr 2019 gofynnodd y Llywydd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gynnal ymchwiliad i bleidleisio gan garcharorion. Byddai wedi bod yn amhriodol cynnwys y darpariaethau hyn adeg cyflwyno'r Bil cyn i adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor gael eu cyhoeddi.

Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ym Mehefin 2019 yn argymhell etholfreinio carcharorion o Gymru sy'n gwasanaethu dedfryd o lai na phedair blynedd ac i bobl ifanc 16-17 oed sy'n cael eu cadw yn y ddalfa gael eu hetholfreinio ar yr un telerau. Cafodd y rhain eu cefnogi gan nifer o argymhellion yn cefnogi'r broses megis pleidleisio trwy'r post a phleidleisio trwy ddirprwy ar gyfer carcharorion.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Pwyllgor y dylai carcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa o Gymru sy'n gwasanaethu dedfryd o lai na phedair blynedd gael eu hetholfreinio.